Taflen Ffeithiau ar Dderbyn i Ysgolion ac Apeliadau

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch Derbyn i Ysgolion ac Apeliadau. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Dylid cwyno ynghylch derbyn i ysgolion i'r Awdurdod Addysg Lleol perthnasol yn y lle cyntaf, ond gallwch gwyno ynghylch apeliadau derbyn i ysgolion yn syth i'r Ombwdsmon.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych ar gwynion ynghylch gweithdrefnau derbyn i ysgolion yng Nghymru, a'r broses apelio ar gyfer derbyn i ysgolion.

- edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Awdurdod Addysg Lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion yn annheg.

- edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Panel Apêl Derbyn i Ysgolion wedi ymddwyn yn amhriodol.

Os ydych yn anfodlon â sut y gweithredodd eich Awdurdod Addysg Lleol ei weithdrefn derbyn i ysgolion ar gyfer eich plentyn chi, neu'n anfodlon ag ymddygiad Panel Apêl Derbyn i Ysgolion, gallwch gwyno i'r Ombwdsmon, ond cofiwch wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- gorfodi Awdurdod Addysg Lleol i gynnig lle mewn ysgol i'ch plentyn.

- mynd yn groes i benderfyniad a wnaed gan Banel Apêl Derbyn i Ysgolion. Fodd bynnag, os yw'n credu bod gwrandawiad y Panel yn amhriodol neu'n annheg, efallai y bydd yn argymell bod Panel newydd yn clywed yr apêl.

- ymchwilio i achosion derbyn neu apeliadau yng nghyswllt ysgolion Annibynnol.

Materion i gadw mewn cof

Cyn gwneud cwyn i'r Ombwdsmon, dylech ystyried a ydyw'r Awdurdod Addysg Lleol wedi ymddwyn yn briodol:

- Dylai Awdurdodau Addysg Lleol gyhoeddi eu polisïau derbyn, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddir ganddynt wrth ddyrannu lle mewn ysgol.
- Dylai Awdurdodau Addysg Lleol anrhydeddu dewisiadau'r rhieni wrth ddyrannu lle mewn ysgol i blant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl bob tro, e.e. os nad oes digon o le yn yr ysgol a ddewiswyd.
- Pan fydd mwy o geisiadau i fynychu ysgol na'r lle sydd ar gael, rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol ddefnyddio eu 'meini prawf ysgolion gorlawn' i flaenoriaethu'r ceisiadau. Fodd bynnag, mae'n brin i fwy na 30 o blant gael lle mewn dosbarth Babanod.

Cyn cwyno i'r Ombwdsmon, dylech ystyried a ydyw'r Panel Apêl wedi ymddwyn yn briodol:

- Dylai Awdurdodau Addysg Lleol roi gwybod i rieni sut i apelio i Banel Apêl os gwrthodir lle i'w plentyn yn eu hysgol dewis cyntaf.
- Mae Paneli Apêl yn annibynnol ac yn clywed achosion yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r rhieni.
- Mae Paneli Apêl yn penderfynu a ddylai rhesymau'r rhieni dros fod eisiau i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol neilltuol droi'r fantol yn erbyn unrhyw anfantais i'r ysgol pe bai'n derbyn eu plentyn.

Gwybodaeth bellach

Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol a Phaneli Apêl Derbyn i Ysgolion ystyried y Cod Statudol ar Dderbyn i Ysgolion ac Apeliadau. Gallwch lawrlwytho copïau o wefan **Llywodraeth y Cynulliad** yn
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmissions/?lang=en

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ